Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Diweddariad y Pwyllgor

Haf 2024 – Hydref 2024

## Croeso i wythfed diweddariad y Pwyllgor

Dyma wythfed bwletin Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd. Mae'n rhoi trosolwg o weithgareddau diweddaraf y Pwyllgor a'r holl waith sydd ar y gweill, er mwyn eich helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf ac i ymgysylltu â gwaith y Pwyllgor .

Cafodd y bwletin ei baratoi gan y tîm Clercio sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor. Os oes gennych unrhyw sylwadau, rhowch wybod inni drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

### Manylion cyswllt

Gallwch anfon e-bost at Dîm Clercio'r Pwyllgor: **SeneddEconomi@senedd.cymru**

Ffoniwch ni: 0300 200 6565

Dilynwch ni ar Twitter: **@SeneddEconomi**

Gwefan: **senedd.cymru/SeneddEconomi**

## Gwaith presennol

## Dyfodol Dur yng Nghymru

Mae gwaith y Pwyllgor yn parhau yn y maes hwn sy'n datblygu'n gyflym, gyda datganiad gan y Cadeirydd ar 25 Ebrill 2024 yn dilyn cyhoeddiad Tata Steel UK am ddirwyn y trafodaethau â'r undebau i ben, a'i fod yn bwriadu parhau i gau'r ddwy ffwrnais chwyth.

Ar 29 Ebrill, atebodd y Gweinidog Diwydiant a Diogelwch Economaidd lythyr y Pwyllgor  ynglŷn â sicrhau'r cyflenwad dur sgrap ar gyfer y ffwrnais arc trydan newydd arfaethedig ar safle Port Talbot. Ymatebodd Tata i lythyr y Pwyllgor hefyd yn dilyn y cyhoeddiad ar 18 Mawrth ynghylch cau ei ffyrnau golosg yn gynnar.

Ymatebodd Carwyn Jones hefyd, sef cyn-Brif Weinidog Cymru, ar ôl i'r Pwyllgor ofyn am sylwadau ynghylch sut yr oedd wedi ymgysylltu â Tata Steel yn ei rôl fel Prif Weinidog yn ystod argyfwng dur 2016, i weld a oedd unrhyw wersi y gellid eu dysgu o ran y ffordd y gwnaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gydweithio ar y pryd. Croesawodd y Pwyllgor hefyd safbwyntiau gan Brif Swyddog Gweithredol Celsa Steel ar ddyfodol y diwydiant yng Nghymru.

Ar 18 Gorffennaf 2024, anfonodd y Pwyllgor lythyr agored at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn nodi deg argymhelliad yn seiliedig ar ei ganfyddiadau

## Yr Economi Werdd

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i'r Economi Werdd, gan gynnal sesiynau tystiolaeth lafar drwy gydol tymhorau'r gwanwyn a'r haf.

Daeth y naw sesiwn panel i ben ar 26 Mehefin, pan roddwyd tystiolaeth lafar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg.

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad yn nhymor yr hydref.

## Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Yn Sioe Frenhinol Cymru ddydd Llun 22 Gorffennaf, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar ei ymchwiliad undydd, a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid ar 9 Mai. Roedd y sesiwn yn gyfle i glywed safbwyntiau ar y broses o ymgysylltu a chydweithio, a chafwyd sesiwn dystiolaeth yn dilyn hynny ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar 13 Mehefin.

Holodd y Pwyllgor Ysgrifennydd y Cabinet am y camau nesaf yn dilyn ei benderfyniad ar 14 Mai i ohirio cyflwyno'r cynllun tan 2026, gyda 'cham paratoi' yn 2025. Ymunodd

Luke Fletcher a Sam Kurtz â Phwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith am ddigwyddiad i randdeiliaid ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar 13 Mawrth.

Mae’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Economi a Seilwaith hefyd wedi cyhoeddi adroddiad ar y cynllun, ac mae manylion yr holl waith craffu a wnaed gan y ddau bwyllgor ar gael ar wefan y Senedd..

Disgwylir i’r Llywodraeth ymateb i adroddiad y Pwyllgor hwn erbyn 3 Medi, ac mae'n debygol y bydd dadl yn y Cyfarfod Llawn yn dilyn hynny yn nhymor yr hydref.

## Sioe Frenhinol Cymru 2024




Ymwelodd Aelodau'r Pwyllgor â'r Sioe Frenhinol yn Llanfair-ym-Muallt ar 22 Gorffennaf 2024. Mewn cyfres o gyfarfodydd anffurfiol ar faes y sioe, cafodd yr Aelodau gyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid a thrafod y blaenoriaethau strategol ar gyfer y portffolio materion gwledig am weddill tymor y Senedd hon, sef mis Medi 2024 hyd at fis Mawrth 2026, gan gynnwys clywed eu barn ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Yn ystod yr ymweliad, cyfarfu'r Aelodau a’r sefydliadau a ganlyn:

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru; Undeb Amaethwyr Cymru (FUW); Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; ITV Cymru; ac aelodau o Cyswllt Amgylchedd Cymru gan gynnwys Ymddiriedolaethau Natur Cymru, WWF Cymru, y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol, Coed Cadw, RSPB Cymru a Chymdeithas Pridd Cymru.

## Cyswllt Ffermio




Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar fenter Cyswllt Ffermio,


a dyfodol y cymorth i ffermwyr sy'n pontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, ar 27 Mehefin 2024. Disgwylir ymateb gan y Llywodraeth ar 8 Awst a bydd dadl yn y Cyfarfod Llawn yn nhymor yr hydref.

## Banc Datblygu Cymru

Daeth ymchwiliad y Pwyllgor i Fanc Datblygu Cymru i ben gyda sesiwn dystiolaeth lafar â’r Banc ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar 24 Ebrill. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ddydd Gwener 12 Gorffennaf. Mae'r 13 argymhelliad yn cynnwys galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad llawn wedi'i deilwra o weithrediadau'r Banc, ac ystyried materion gan gynnwys ei brosesau ar gyfer diwydrwydd dyladwy a chwynion, a symleiddio swyddogaethau cymorth busnes yng Nghymru. Disgwylir ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 23 Awst.

## Gweithgareddau diweddar

## Ymchwil a Datblygu




Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar 9 Mai 2024 ac ymatebodd Llywodraeth Cymru ar 26 Mehefin 2024.

## Ynni niwclear ac economi Cymru




Cafodd y Pwyllgor ymateb i'w adroddiad gan Lywodraeth Cymru a chan fod ynni niwclear yn fater a gedwir yn ôl, gan gyn-Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net. Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 17 Ebrill 2024.

## Craffu Cyffredinol ar Waith Gweinidogion

Cynhaliodd y Pwyllgor ei sesiynau craffu cyffredinol cyntaf gyda'r Ysgrifenyddion Cabinet sydd newydd gael eu penodi:

Huw Irranca Davies AS – Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ddydd Iau 13 Mehefin 2024, a Jeremy Miles AS – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ddydd Mercher 26 Mehefin 2024.

### Blaenraglen waith

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar ei raglen waith hyd at hydref 2024. Mae'r flaenraglen sydd eisoes ar gael yn nodi bwriad y Pwyllgor ar adeg ei chyhoeddi. Fodd bynnag, gallai hyn newid ar unrhyw adeg er mwyn ymateb i ddigwyddiadau allanol.

Disgwylir i waith y Pwyllgor gynnwys ystyriaeth barhaus o Ddyfodol Dur yng Nghymru, ymchwiliad newydd i'r Economi Sylfaenol, gwaith craffu blynyddol ar Fanc Datblygu Cymru, craffu cyffredinol ar waith Ysgrifenyddion Cabinet Llywodraeth Cymru ac ymchwiliad undydd i 'Ddeallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru'.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu cynnal ymweliad ym mis Hydref.

Roedd datganiad y Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ar Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar 9 Gorffennaf yn cynnwys cynlluniau i gyflwyno Bil llety ymwelwyr (rheoleiddio), ond mae'r manylion o ran pryd yn union y caiff ei gyflwyno, a ph'un a gaiff ei gyfeirio at y Pwyllgor hwn ai peidio, eto i'w cadarnhau gan Lywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Busnes yn y drefn honno.

# Cylch gorchwyl

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021, gyda chylch gorchwyl yn cwmpasu (ond heb fod yn gyfyngedig i): datblygu economaidd, adfywio, sgiliau, masnach, ymchwil a datblygu (gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth), a materion gwledig.

# Aelodau'r pwyllgor



**Cadeirydd y Pwyllgor: Paul Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hefin David AS**

Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**

Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**

Ceidwadwyr Cymreig



**Vikki Howells AS**

Llafur Cymru



**Jenny Rathbone AS**

Llafur Cymru